Comisiwn Coedwigaeth
Forestry Commission

Rheoli Torri Coed

Siarter

Datganiad Safonol ar Drwyddedu Torri Coed

Cyflwyniad

Y Comisiwn Coedwigaeth yw Adran y Llywodraeth sy'n gweithredu polisi coedwigaeth y Llywodraeth yn yr Alban, Cymru a Lloegr, ac o dan ddarpariaeth Deddf Coedwigaeth 1967 mae'n gyfrifol am reoli torri coed. Pwrpas rheolaeth o'r fath yw diogelu amgylchedd a mwynderau cefn gwlad tra'n sicrhau bod coetiroedd a choedwigoedd yn cael eu cynnal fel anodd adnewyddadwy.

Mae'r Comisiwn Coedwigaeth yn rheoli torri coed drwy roi trwyddedau torri coed. Rydym hefyd yn ymchwilio i achosion tybiedig o dorri coed yn anghyfreithlon ac yn erlyn troseddwyr lle y bo'n briodol. Gallwn roi rhybudd ailstocio i unrhyw berchennog neu denant a geir yn euog o dorri coed yn anghyfreithlon i sicrhau bod coed newydd yn cael eu plannu yn eu lle.

Rydym wedi ymrwymo i wneud ein dyletswydd mewn ffordd effeithlon drwy gadw'r gost o gydymffurfio â gofynion statudol mor isel â phosibl, tra'n sicrhau bod y buddion cyhoeddus a ymgorfforir yn y Safon Coedwigaeth, megis mwynderau, hamdden, tirwedd a chadwraeth yn cael eu diogelu.

Gwybodaeth a Chyngor

I'ch helpu i benderfynu a oes angen trwydded torri coed arnoch, rydym wedi cynhyrchu llyfryn arbennig, **'Torri Coed - cael caniatâd'**. Gallwch gael copi o'r llyfryn hwn o unrhyw un o swyddfeydd y Comisiwn Coedwigaeth. Ceir rhestr o'r cyfeiriadau ar ddiwedd y llyfryn hwn.

Mae'r llyfryn yn dweud wrthych sut i gael caniatâd ar gyfer torri coed, ond dylid nodi mai canllawiau yn unig a geir yma yn hytrach na dehongliad o'r ddeddfwriaeth sy'n rhwymo'n gyfreithiol.

Gallwch gael cyngor ynghylch trwyddedau torri coed o swyddfa leol y Comisiwn Coedwigaeth. Gallwn hefyd roi cyngor cychwynnol i chi am arferion coedwigaeth da y dylid eu dilyn wrth dorri coed.

Gwella Gwasanaethau

CITIZEN'S CHARTER

Bod yn Agored

Byddwn...

- **bob amser yn cario cerdyn adnabod, ac yn rhoi ein henw ar bob gohebiaeth, wrth siarad ar y ffôn, ac wrth siarad â chi wyneb yn wyneb;**
- **yn rhoi gwybod i chi sut y mae eich cais yn mynd ymlaen, ac yn trafod unrhyw amodau ailstocio arfaethedig gyda chi;**
- **ar ôl i'r coed gael eu torri, yn trefnu i archwilio'r tir i sicrhau bod unrhyw ailstocio sy'n ofynnol o dan drwydded amodol wedi cael ei gwblhau;**
- **yn ysgrifennu atoch i roi gwybod i chi os nad ydych wedi cwrdd â holl amodau'r drwydded;**
- **yn rhoi amser i chi gywiro pethau.**

- Os nad ydych yn cywiro'r sefyllfa, mae'n bosibl y byddwn yn cyflwyno Rhybudd Gorfodi ffurfiol i chi. Bydd hyn yn caniatáu cyfnod byr o amser i chi i wneud y gwaith. Gallwch gael eich erlyn os nad ydych yn cydymffurfio â'r Rhybudd hwn. Mae'n bosibl y byddwn yna'n gwneud y gwaith ac yn codi arnoch chi amdano.
- Os bydd yn rhaid i ni ymchwilio i achos honedig o dorri coed yn anghyfreithlon, lle torrwyd coed heb drwydded neu lle torrwyd mwy o goed nag y mae'r drwydded yn ei ganiatáu, byddwn yn ceisio rhoi gwybod i'r tirfeddiannwr neu'r deiliad prydles (os yn hysbys) ein bod yn bwriadu mynd ar y tir i archwilio'r gwaith torri coed, i wneud mesuriadau ac i ganfod y ffeithiau.
- Byddwn yn adrodd y ffeithiau i'r tirfeddiannwr neu unrhyw berson arall a fu â rhan yn y torri coed, a byddwn yn nodi pa gamau pellach y mae'r Comisiwn Coedwigaeth yn bwriadu eu cymryd.

Ymateb

- Byddwn yn ateb ymholiadau ffôn yn brydlon.
- Os byddwch chi'n siarad â rhywun nad yw'n gallu rhoi cyngor i chi, neu os bydd angen cyngor technegol arnoch, byddwn yn trefnu i rywun a all helpu eich ffonio yn ôl a threfnu i ymweld â chi os oes angen.
- Os na allwn roi ateb llawn i chi o fewn yr amser hwn, byddwn yn dweud wrthych pryd y byddwn yn rhoi ateb i chi, a pham na allwn roi ateb i chi o fewn pythefnos.

Comisiwn Coedwigaeth
Forestry Commission

Eich Cais am Ganiatâd Torri

- Byddwn yn rhoi gwybod i chi o fewn **3 diwrnod gwaith** ein bod wedi derbyn eich cais am drwydded torri coed.
- Os na allwn ymdrin â'ch cais, byddwn yn dweud wrthych pam na allwn wneud hyn.
- Os yw eich cais yn gyflawn, a'n bod ni'n gallu ymdrin ag ef:
  - byddwn yn trefnu i gysylltu â chi o fewn **3 wythnos** os bydd angen i ni ymweld â'r safle;
  - byddwn yn gwneud unrhyw ymweliad angenrheidiol o fewn **6 wythnos**;
  - ni fyddwn yn dechrau ymgynghori neu'n rhoi manylion ar y Gofrestr Plannu Newydd a Thorri Coed nes ein bod wedi archwilio'r safle (os oes angen), neu wedi trafod unrhyw newidiadau angenrheidiol gyda chi;
  - byddwn yn ceisio cwblhau unrhyw ymgynghori angenrheidiol â chyrff statudol eraill o fewn 4 wythnos. (Bydd manylion eich cais, heb gynnwys gwaith teneuo coed, yn ymddangos ar y gofrestr gyhoeddus am 4 wythnos);
  - byddwn yn ceisio rhoi trwydded i chi o fewn **10 wythnos** ar ôl derbyn eich cais, oni bai bod amodau y tu hwnt i'n rheolaeth neu fod y cais yn codi cwestiynau sensitif neu gymhleth;
  - byddwn yn rhoi gwybod i chi os na allwn gwrdd ag unrhyw un o'r amserlenni uchod, ac yn dweud pam.

Mae gofyn i ni, dan Ddeddf Coedwigaeth 1967, wneud penderfyniad ynghylch eich cais o fewn 3 mis i'r dyddiad yr ydym yn derbyn cais boddhaol, oni bai eich bod chi wedi cytuno i estyn yr amser.

Gwrando arnoch

- A fyddech cystal â rhoi gwybod i ni beth yr ydych yn ei feddwl o'r gwasanaeth a gynigir gennym. Gallwch ysgrifennu atom, ein ffonio, neu anfon ffacs neu e-bost. Bydd hyn yn ein helpu i ddarparu'r gwasanaeth sydd ei angen arnoch.
- Neu gallwch ddweud wrth ein staff pan fyddant yn ymweld â'ch coetir, neu mewn unrhyw gyfarfod arall â hwy.
- Byddwn yn cysylltu'n rheolaidd â sefydliadau sy'n cynrychioli tirfeddianwyr a pherchenogion coedwigoedd, meithrinfeydd, asiantau coedwigaeth, awdurdodau lleol, buddiannau amgylcheddol a mwynderol statudol a gwirfoddol ac yn gwrando ar eu barn.

Sut y gallwch ein helpu

- Gofynnwch am daflenni, gwybodaeth ac arweiniad os nad ydych yn sicr beth i'w wneud.
- Llenwch y ffurflenni cais yn eglur.
- Gofalwch ddarparu dau fap o ansawdd da (1:10,000 neu 1:2500 fel rheol); mae angen dau gopi wedi'u harwyddo arnom.
- Nodwch eich cynigion, a rhowch yr holl wybodaeth yr ydych yn credu y bydd ei hangen arnom i asesu'ch cais.
- Sicrhewch fod eich cais yn cwrdd â'r canllawiau amgylcheddol a chanllawiau eraill (e.e. y Safon Coedwigaeth).
- Rhowch wybod i ni os ydych yn credu bod coed yn cael eu torri heb drwydded.

Gwella Gwasanaethau

CITIZEN'S CHARTER

Rheoli Torri Coed

Siarter Datganiad Safonol ar Drwyddedu Torri Coed

Cwynion

- Os oes gennych chi gwyn amdanom ni neu ein gwasanaeth, ysgrifennwch atom, ffoniwch ni, anfonwch ffacs neu e-bost atom, neu dowch i'n gweld.
- Dylech yn gyntaf gysylltu â'ch Gwarchodwr lleol yn y swyddfa briodol.
- Bydd y Gwarchodwr yn ateb eich cwyn o fewn 10 diwrnod gwaith, neu'n rhoi gwybod i chi beth sy'n cael ei wneud ynghylch eich cwyn.
- Os nad ydych chi'n fodlon ar yr ateb, gallwch gysylltu â'r Prif Warchodwr yn y Swyddfa Genedlaethol.
- Os ydych chi'n dal yn anfodlon ar ôl derbyn ateb y Prif Warchodwr, a'ch bod yn credu nad yw eich cwyn wedi cael triniaeth neu ystyriaeth deg, gallwch ofyn i'ch cwyn gael ei hystyried gan y Comisiynydd Coedwigaeth anweithredol priodol.
- Gallwch ysgrifennu at:
  Ysgrifennydd y Comisiynwyr, Y Comisiwn Coedwigaeth, 231 Corstorphine Road, Caeredin EH12 7AT
- Bydd yn ymchwilio i'r holl amgylchiadau ac yn eich hysbysu chi a ninnau o'r canlyniad.
- Os ydych yn dal yn anfodlon, gallwch gysylltu â'ch Aelod Seneddol, a gallwch ofyn i'ch cais gael ei anfon ymlaen at yr Ombwdsman. Gallwch hefyd ysgrifennu at yr Adran Amaeth briodol:

  Yng Nghymru - Adran yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad, Llywodraeth Cynulliad Cymru
  Yn Lloegr - Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA)
  Yn yr Alban - Adran yr Amgylchedd a Materion Gwledig, Llywodraeth yr Alban (SEERAD).

  Dylech fanylu ar natur eich cwyn a darparu unrhyw ohebiaeth sy'n berthnasol i'r cais.



Comisiwn Coedwigaeth
Forestry Commission

FCCS439
Comisiwn Coedwigaeth 11/45/21(AC)(GL)-MDA-Nov 04 © Crown copyright.